



Amcan Llesiant 6

Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

Y canlynol yw ein hymrwymiaadau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2018/19.

Ymrwymiaadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
A - Yn rhanbarthol, drwy gydlynw a chyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe		
<p>Fel rhan o'r Fargen Ddinesig, byddwn yn cyflwyno'r cynllun prosiect ar gyfer y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys datblygu manylebau cynllunio a gofod manwl, ynghyd â chychwyn y cam dylunio ac adeiladu gan sicrhau ymgysylltu â'r gymuned a'r cyhoedd. (Cyf. 12985) MF5-72a</p>	✓	<p>Mae'r gwaith wedi parhau ar ddatblygu'r manylion ar gyfer adeiladau sector cyhoeddus cam 1 (Hwb Llesiant a Hwb Iechyd Cymunedol) yn ogystal ag ynni a seilwaith. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn hyn hyd at ddiwedd Cam 2 RIBA. Mae ymarfer tendro ar gyfer gwaith ymchwilio tir wedi'i gynnal a bydd y gwaith yn cychwyn ym mis Mai. Cafodd cais cynllunio amlinell ar gyfer elfennau'r Pentref Llesiant ei gymeradwyo'n unfrydol yng nghyfarfod cynllunio ar 10 Ionawr 2019. Aed i'r afael â gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru o ran perygl llifogydd.</p>
<p>Byddwn yn cefnogi'r gwaith ar Yr Egin (£24 miliwn), er mwyn sicrhau bod y Sir yn elwa'n llwyr o'r cyfleoedd a grëir yn sgil y buddsoddiad gwerth £1.3 biliwn a wneir o ganlyniad i Fargen Ddinesig Bae Abertawe. (Cyf 13160) MF5-72C</p>	✓	<p>Rydym wedi parhau i gefnogi'r Drindod Dewi Sant drwy ddatblygu achos busnes 5 achos y Fargen Ddinesig ar gyfer cam 1 a cham 2 Yr Egin, a hefyd y prosiect dan raglen LEADER yr UE, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu busnesau ar gyfer y sector creadigol ac sy'n parhau i gyflwyno prosiectau arloesol.</p>
<p>Byddwn yn cynnal Swyddfa Ranbarthol Bargen Ddinesig Bae Abertawe. (Cyf. 13161) MF5-72d</p>	✓	<p>Mae'r Swyddfa Ranbarthol yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu blynyddol a fydd yn amlinellu'r rhaglen waith ar gyfer y Swyddfa Ranbarthol.</p>
B - Yn lleol, trwy gyflawni Cynlluniau Ardal y Strategaeth Drawsnewidiol gan dargedu ardaloedd trefol, arfordirol a gwledig Sir Gaerfyrddin.		
<p>Byddwn yn cyflawni cynllun trawsnewidiol Caerfyrddin, Rhydaman a Gwledig ac yn darparu mentrau a phrosiectau yn cynnwys Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn; Lledu'r ffordd yn Stryd Marged; Gwlyptiroedd Caerfyrddin a datblygu Lôn Jackson yng Nghaerfyrddin; Rheoli Cyfrifon Busnes, Cychwyn Busnesau a Meithrin Busnesau. (Cyf. 13162)</p>	✓	<p>Dyma'r cynnydd eleni o ran y mentrau a'r prosiectau sy'n rhan o'r Cynllun Trawsnewid:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn - prif gontractwr wedi'i benodi, caniatâd cynllunio wedi'i roi, a chontractwr wedi dechrau ar y safle ym mis Ionawr 2019. • Cyffordd Stryd Marged - Gwaith BT wedi'i gwblhau, gwaith lledu'r ffordd i ddechrau yn ystod gwyliau'r haf 2019. • Prosiect Gwlyptiroedd a Phorth Caerfyrddin, caniatâd ar gyfer arwyddion wedi dod i law, gwybodaeth am y tendr yn cael ei chwblhau gyda golwg ar ddechrau'r gwaith adeiladu ddiwedd y gwanwyn. • Lôn Jackson - yn cwblhau'r cytundeb cyfreithiol ar hyn o bryd gyda'r datblygwr a fydd wedyn yn ceisio sicrhau y ceir yr holl ganiatâd priodol ar gyfer cyflawni'r prosiect. • Cynhaliwyd gwobrau busnes Tref Caerfyrddin yn Nhachwedd 2018, lanswyd cronfeydd cychwyn busnes a thwf busnes, a phroseswyd ceisiadau.

Ymrwymadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		Cymorth busnes parhaus yn cael ei ddarparu i fusnesau'r ardal sydd wedi arwain at greu 115 o swyddi yn 18/19.
Byddwn yn cyflwyno Cronfa Datblygu Eiddo gwerth £8.6 miliwn (£3 miliwn gan y Cyngor a tua £5.6 miliwn yn fuddsoddiad sector preifat). (Cyf. 13163) MF5-73f	✓	Gwaith adeiladu wedi'i gwblhau ar y pum prosiect cyntaf a gymeradwywyd dan y cynllun, sy'n cynnwys: Dolawen(Coaltown); Aspect Developments (hen lys Rhydaman); BMA SSAS (Jolly Tar Caerfyrddin); Dolawen (Mid Tec Capel Hendre) ac Elliston Lettings (Teras Elliston, Caerfyrddin). Mae'r pum prosiect a gefnogwyd hyd yma wedi arwain at yr allbynnau canlynol: 27,304 troedfedd sgwâr o lawr masnachol yn cael ei ddarparu; 111 o swyddi mewn lleoliad newydd a £2m+ o Fuddsoddiad Sector Preifat wedi'i sicrhau. Mae'r tri phrosiect arall a gymeradwywyd o dan y dyraniad cychwynnol o £3m yn gwneud cynnydd o ran cyflwyno ceisiadau manwl gyda golwg ar ddechrau adeiladu'n ddiweddarach eleni. Mae 6 phrosiect arall wedi cael gwahoddiad yn ddiweddar i gamu ymlaen i'r cam ymgeisio manwl ar gyfer yr £1.5m ychwanegol.
Byddwn yn cyflawni Parth Twf Cross Hands, Llanelli a Llain Arfordirol y Cynllun Trawsnewidiol ac yn cyflawni mentrau a phrosiectau gan gynnwys Stryd Cyfleoedd, Llanelli; Cam 2 Dwyrain Cross Hands; Safle Cyflogaeth Strategol; Gweithffyrdd + Buccaneer a Bwrsariaeth y Goleudy. (Cyf. 13164) MF5-73d	✓	Mae dylunio seilwaith Cam 2 yn Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands wedi bod yn digwydd drwy wasanaethau dylunio peirianegol mewnol. Mae'r cynigion adfywio'n parhau yng nghanol tref Llanelli, ac mae'r cyfleoedd datblygu'n cael eu marchnata. Mae tri safle strategol, adeilad yr YMCA, Stryd Stepney/Stryd y Farchnad Gogledd, a Stryd y Farchnad De wedi'u marchnata ac mae rhestr fer o ddatblygwyr sydd â diddordeb. Cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu â'r cyhoedd yn Theatr y Ffwrnes ar y 4ydd o Hydref er mwyn cyfathrebu Cynllun Adfywio'r Cyngor ar gyfer canol y dref. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch y rhaglen fuddsoddi bwrpasol ar gyfer adfywio ac mae'r prosiectau thematig rhanbarthol wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol bellach. Mae prosiectau Gweithffyrdd + a Buccaneer yn mynd yn dda ac mae cymorth ar gyfer pobl ddiwaith yn y tymor hir a busnesau yn parhau dan amcanion y prosiectau dan sylw.
Byddwn yn datblygu Safleoedd Cyflogaeth Lleol ledled y sir fel rhan o'r Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio Strategol Sir Gaerfyrddin. (Cyf 13165) MF5-73e	✓	Mae diweddariad ynghylch y ddogfen Trawsnewidiadau yn cael ei lunio, sy'n cydnabod y cynnydd a wnaed eisoes ers ei lansio yn 2015. Mae datblygu safleoedd cyflogaeth lleol yn ystyriaeth allweddol. Mae'r cynigion cychwynnol eisoes wedi'u ffurfio mewn 29 o 'safleoedd ymgeisio' masnachol a gyflwynwyd i'r adran gynllunio eu hystyried dan ei hadolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin. Mae'r gwaith seilwaith Cam 2 ar Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands wedi'i dendro drwy fframwaith contractwr peirianeg y Cyngor Sir.
Byddwn yn datblygu rhaglen i gefnogi busnesau bach ledled y sir. (Cyf 13166) MF5-78	✓	Mae swyddogion achos yn dal i gwrdd â darpar fusnesau ac yn gweithio gydag ymgeiswyr posibl. Mae 18 o Grantiau Cychwyn Busnes wedi cael eu hystyried

Ymrwymadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		a'u cymeradwyo gan y panel. Mae 38 o grantiau Twf Busnes wedi cael eu cymeradwyo. Mae cyfanswm y grant a ddyrannwyd hyd yn hyn yn cyfateb i £373,771
Byddwn yn darparu datblygiadau trawsnewidiol yng nghanol tref Llanelli. (Cyf 13167) MF5-73a	✓	Roedd safleoedd datblygu canol trefi yn cael eu hystyried dan y rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio a ddarperir yn rhanbarthol a oedd yn cynnwys adeilad y YMCA, Stryd Stepney/Gogledd Stryd y Farchnad a De Stryd y Farchnad. Daeth ymarfer marchnata agored i'r casgliad nad oedd cynigion ar gyfer unrhyw gynlluniau ymarferol o'r sector preifat wedi dod i law. Felly mae prosiectau a gyflawnir yn uniongyrchol gan y Cyngor, sy'n cynnwys Grant Llywodraeth Cymru a chyllid cyfalaf cyfatebol Cyngor Sir Gaerfyrddin, yn cael eu datblygu ar gyfer hen adeilad y YMCA a Gogledd Stryd y Farchnad. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo rhai prosiectau hefyd bellach.
Byddwn yn datblygu ymhellach Lain Arfordirol Sir Gaerfyrddin ym Mhen-bre. (Cyf 13168) MF5-73C	✓	Dylid ystyried uwchgynllun sy'n cwmpasu ardal Pen-bre a'i gysylltu â'r Gwasanaethau Hamdden i ddatblygu a chyflawni cynigion. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar fentrau datblygu yn y Parc Gwledig ac mae bloc amwynderau newydd wedi'i agor ar ddechrau 2018.
Byddwn yn datblygu ymhellach Lain Arfordirol Sir Gaerfyrddin ym Mhentywyn. (Cyf. 13169)	✓	Mae'r prif gontractwr ar gyfer datblygiad Denu Twristiaid Pentywyn wedi cael eu penodi, mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ac mae tir wedi'i neilltuo. Bellach mae gwaith cychwynnol a gwaith ar y prif gontract wedi cychwyn a rhagwelir y bydd y contract bellach yn cael ei gwblhau yn haf 2020.
Byddwn yn cyflawni cam 2 o ddatblygiad Gweithdai Glanaman er mwyn gwella'r ddarpariaeth o ran gweithdai. (Cyf 13170) MF5-10	✓	Mae arolygon asbestos a data presennol wedi'u casglu. Mae'r adroddiad opsiynau wedi'i gwblhau a'i gyflwyno. Mae cyfarwyddiadau wedi'u derbyn bellach ynghylch yr opsiynau a ffefrir ac mae'r gwaith dylunio yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o wahodd tendrau yn ystod yr haf a dechrau gwaith ar y safle yn ystod 2019
C - Trwy nodi a mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu cymunedau gwledig		
Byddwn yn cyflwyno -y Gronfa Mentrau Gwledig sydd werth £4.3 miliwn (£2 filiwn gan y Cyngor a tua £2.3 miliwn yn fuddsoddiad sector preifat). (Cyf 13171) MF5-73g	✓	Hyd yn hyn o'r dyraniad cychwynnol o £2 filiwn, mae 16 o fusnesau wedi elwa o'r gronfa ac mae pedwar ar ddeg o'r busnesau hynny bellach yn gweithredu yn eu safleoedd newydd neu safleoedd gwell, ar ôl cwblhau eu prosiectau. Mae hyn wedi arwain at fuddsoddi mwy na £3m a chreu 64 o swyddi yn ardal wledig Sir Gaerfyrddin. Mae 20 prosiect arall yn ceisio sicrhau arian o'r dyraniad cychwynnol sy'n weddill ac mae dyraniad ychwanegol o £1m yn 19/20 wedi'i gymeradwyo yn ystod cam 1 o'r broses ymgeisio.
Byddwn yn rhoi ystyriaeth i gyfleoedd i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sefydlu Bargen Wledig i ganolbwyntio ar adfywio gwledig. (Cyf 13172) MF5-77	✓	Rydym wedi parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol gwledig ynghylch datblygu bargaen wledig bosibl ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Mae grantiau cyllid wedi cael eu rhoi o dan Gronfa Mentrau Gwledig Sir

Ymrwymadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		Gaerfyrddin, ac mae buddsoddiad gan y sector preifat wedi'i ddefnyddio i gael cyllid cyfalaf o ran adnoddau'r Cyngor. Mae gwaith wedi cychwyn ar raglen ARFOR Llywodraeth Cymru gyda Chynghorau Ceredigion, Ynys Môn a Gwynedd, i greu swyddi gan hyrwyddo'r Gymraeg ar yr un pryd.
Byddwn yn sefydlu Grŵp Gorchwyl i ystyried y materion sy'n effeithio ar gymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin ac i nodi camau y gall y Cyngor eu cymryd i fynd i'r afael â nhw mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus a sefydliadau eraill. (Cyf 13173) MF5-76	✓	Mae'r gwaith o gymryd tystiolaeth ynghylch y materion sy'n effeithio ar gymunedau gwledig wedi parhau yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd cynhadledd i randdeiliaid ym Medi 2018. Bydd yr adroddiad terfynol a'r argymhellion yn cael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019.
Byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o ffermydd y Cyngor er mwyn cefnogi mentrau ffermio fforddiadwy. (Cyf 13174) MF5-14.	✓	Rydym ar y trywydd iawn i adolygu'r Polisi Ystadau Gwledig presennol yn ystod 2019/20, yng ngoleuni canfyddiadau'r Tasglu Gwledig ac yn unol â nod strategol y Bwrdd Gweithredol o gefnogi mentrau ffermio fforddiadwy erbyn 31/3/2020
Byddwn yn sefydlu mentrau adfywio i ganolbwyntio ar ddatblygu trefi marchnad y Sir. (Cyf 13175) MF5-73b	✓	Mae cyllid allanol wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddarparu'r cynlluniau ar gyfer datblygu trefi marchnad gwledig yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys Sanclêr, Hendy-gwyn ar Daf, Talacharn, Cwmaman (Dyffryn Aman), Llandeilo a Llanymddyfri. Mae gwaith wedi cychwyn yn Llanymddyfri ac mae nifer o sesiynau ymgynghori wedi bod ac mae dogfen waelodlin ddrafft a dogfen gynllunio wedi'u llunio.
D - Drwy ddatblygu dysgu, sgiliau, cyflogadwyedd ac annog ysbryd o entrepreneuriaeth ledled y sir i gefnogi busnesau newydd yn y sir.		
Byddwn yn cyflawni'r Fenter Sgiliau a Thalentau £30 miliwn er mwyn sicrhau bod y Sir yn elwa'n llwyr o'r cyfleoedd a grëir yn sgil y buddsoddiad gwerth £1.3 biliwn a wneir o ganlyniad i Fargen Ddinesig Bae Abertawe. (Cyf. 13176) MF5-72b	✓	Cyflwynodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gynllun busnes wedi'i ddiweddarau i Lywodraeth Cymru ar gyfer y Fenter Sgiliau a Thalent. Er mwyn paratoi ar gyfer cymeradwyo'r prosiect, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i ddatblygu syniadau ynghylch sut y gallwn gynyddu diddordeb pobl ifanc yn yr hyn sy'n digwydd ym mhrosiectau'r Fargen Ddinesig.
E - Datblygu Sir Gaerfyrddin fel economi ddeinamig		
Byddwn yn monitro ac yn ymchwilio i effaith BREXIT ar economi Sir Gaerfyrddin. (Cyf 13177) MF5-84	✓	Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio ar gyfer Brexit, sy'n cynnwys Aelodau a Swyddogion ac sy'n cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd Fforwm Lleol Cymru Gydnerth er mwyn paratoi at Brexit. Mae'r fforwm yn cael ei gadeirio gan Heddlu Dyfed-Powys. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddilyn canllawiau ac argymhellion. Mae hyn yn rhan o raglen gyffredinol o baratoi yn y Cyngor, sydd â'r nod o leihau effaith bosibl Brexit ar wasanaethau'r Cyngor, busnesau a phreswylwyr ledled y sir
Byddwn yn ceisio cael cymaint o arian allanol â phosibl er mwyn gwireddu gweithgareddau economaidd ar draws y sir ac er mwyn cefnogi twf y trydydd sector. (Cyf. 13178)	✓	Rydym wedi parhau i weithio gyda chyllidwyr allanol er mwyn cael cymaint â phosibl o arian Ewropeidd ac arian y Loteri i'r sir. Mae Rhaglen LEADER yr UE wedi dal ati i gyflwyno prosiectau arloesol.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag anawsterau o ran mynediad i fand eang cyflym iawn a signal ffôn symudol ledled y Sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. (Cyf 13179) MF5-74	✓	Mae'r mater hwn wedi cael ei ystyried drwy'r Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig a bydd argymhellion ar sut i gamu ymlaen â'r mater yn cael eu datblygu drwy'r gwasanaethau TG.
Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio ei stoc a'i asedau i hwyluso datblygiad economaidd y Sir. (Cyf. 13180) MF5-79 a MF5-92	✓	Mae'r Cyngor wedi trosglwyddo rheolaeth Harbwr Porth Tywyn i'r sector preifat. Bydd hyn yn galluogi'r ased i elwa ar fuddsoddiad sylweddol er budd yr economi leol. Bwriedir dechrau'r gwaith ar ddatblygu'r Neuadd Sirol ym Mai 2019, a'i agor ddiwedd haf 2019. Cwblhawyd Prydles y Ganolfan Ddarganfod ar gyfer gweithredwr sector preifat a bydd hyn yn galluogi buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat yn yr eiddo, i greu gwell cynnig ar gyfer y lleoliad hwn.
Byddwn yn arwain ac yn cwblhau'r holl gaffaeliadau tir sydd eu hangen i hwyluso cynlluniau priffyrdd strategol megis Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands a Llwybr Beicio Dyffryn Tywi. (Cyf. 13181)	✓	<p>Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands - Mae un tirfeddiannwr arall wedi cytuno ar delerau, a mân fuddiannau yw'r rhan fwyaf o'r lleill. Datganiad o Resymau wedi'i gwblhau, Gorchymyn Mân Ffyrdd wedi'i baratoi ar gyfer cau ffyrdd presennol cyn ymgynghori â Llywodraeth Cymru.</p> <p>Lôn Tir-y-dail - Yr holl gaffaeliadau tir wedi'u cwblhau, cylchfan ffordd newydd wedi'i hagar.</p> <p>Llwybr Beicio Dyffryn Tywi - y telerau wedi'u cynnig i'r holl dirfeddianwyr ar y rhan orllewinol, yn aros am ymatebion. Pump o gaffaeliadau wedi'u cwblhau.</p>
Byddwn yn datblygu a darparu Cynllun Rheoli Cyrchfannau Twristiaeth ar gyfer y Sir Gyfan 2015-2020 ac yn cefnogi hybu Sir Gaerfyrddin fel lle deniadol o safon i aros ac ymweld ag ef. (Cyf. 13182)	✓	<p>Rydym wedi parhau i ddarparu Cynllun Rheoli Cyrchfannau Twristiaeth ar gyfer y Sir Gyfan 2015-2020 i gefnogi hybu Sir Gaerfyrddin fel lle deniadol o safon i aros ac ymweld ag ef.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhyrchwyd 41 o erthyglau o sylwedd ar Sir Gaerfyrddin gan y Cyngor yn y cyfryngau ac iddynt werth hysbysebu cyfatebol o £186k • Mae ymgyrchoedd newydd sy'n deillio o'r gyfres deledu 'Un Bore Mercher' a'r 'Llwybr Hen Bethau a Nwyddau Ail Law' wedi cael cryn sylw yn y cyfryngau. • Rydym wedi cynrychioli'r Cyngor/Sir yn Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol chwarterol De-orllewin Cymru, yr Uwchgynhadledd Dwristiaeth Genedlaethol a seminar Digwyddiadau o Bwys Llywodraeth Cymru. • Cafodd rhifyn gwanwyn 2019 canllaw ymwelwyr dydd Sir Gâr ei lunio, ei ddylunio, ei argraffu a'i ddsbarthu ar lefel o 45,000.
Byddwn yn adolygu cymorth grant trydydd parti mewn perthynas â gofynion yr iaith Gymraeg. (Cyf. 13183)	✓	Rydym wedi adolygu ac alinio canllawiau a phrosesau'r Rhaglen Cymorth Grant trydydd parti mewn perthynas â gofynion yr iaith Gymraeg.
F – Mesurau Perfformiad Cyffredinol		
Byddwn yn anelu at greu 263 yn fwy o swyddi. (EconD/001) <i>(Canlyniad 2017/18 - 352.5 / Targed 2018/19 - 263)</i>	✓	Cafodd 419 o swyddi eu creu â chymorth adfywio yn ystod 2018/19, a oedd yn uwch na'r targed. Crëwyd y rhain drwy ddatblygu busnes ac ymgysylltu; Bwrsariaeth y Goleudy a Meithrin Busnesau;

Ymrwymadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		Cynlluniau Canol Tref Llanelli; Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin a'r Biwro Cymunedol.
We will aim to accommodate 97 jobs. <i>(EconD/002)</i> (2017/18 Result - 195 / 2018/19 Target - 97)	✓	Darparwyd 111 o swyddi yn ystod 2018/19 o ganlyniad i gwblhau pump o brosiectau Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol Trawsnewid Sir Gaerfyrddin.
Byddwn yn anelu at gael 116 o bobl i gael swyddi. <i>(EconD/003)</i> (Canlyniad 2017/18 - 250.5 / Targed 2018/19 - 116)	✓	Mae 137 o unigolion wedi cael swyddi drwy Gymunedau am Waith; Cymunedau am Waith a Mwy; a Gweithffyrdd.
Byddwn yn anelu at gael 1,132 o bobl i wirfoddoli. <i>(EconD/005)</i> (Canlyniad 2017/18 - 1,141 / Targed 2018/19 - 935)	✓	Cafodd 960 o unigolion help i wirfoddoli yn ystod 2018/19 drwy Gweithffyrdd; Cymunedau am Waith/Cymunedau am Waith a Mwy/Gwaddol/Cyfuno; a'r Biwro Cymunedol
Lefel Buddsoddiad y Sector Preifat / cyllid allanol a sicrhawyd £11,303,361 <i>(EconD/008)</i> (Canlyniad 2017/18 – 16,721,475 / Targed 2018/19 - 13,373,763)	✓	Cafodd £16,205,882 o Fuddsoddiad gan y Sector Preifat ei sicrhau yn ystod 2018/19 drwy: Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin; Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol Trawsnewid; Datblygu Busnes ac Ymgysylltu; Cymunedau am Waith/Cymunedau am Waith a Mwy/Gwaddol/Cyfuno; Biwro; Cam 2 Dwyrain Cross Hands; Pontrillas Doc y Gogledd; Cynllun Benthyciadau Canol Tref; Bucanier; Targedu Buddsoddiad Adfywio.
Byddwn yn sicrhau bod canran uchel o anfonebau diddadr yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod i helpu llif arian busnesau lleol. <i>(CFH/006)</i> (Canlyniad 2017/18 - 92.8% / Targed 2018/19 - 93.5%)	✓	Canlyniad 2018/19 - 94% . Mae hyn yn cydymffurfio â'r targed ac yn dangos gwelliant.
Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnal archwiliadau safonau masnachu ar gyfer yr holl fusnesau risg uchel <i>(PPN/001i)</i> (Canlyniad 2017/18 -100% / Targed 2018/19 - 100%)	✓	Canlyniad 2018/19 - 100% Cafodd pob un o'r 115 o fusnesau risg uchel o ran Safonau Masnach oedd yn agored i arolygiad eu harolygu yn ystod y flwyddyn.
Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnal archwiliadau iechyd anifeiliaid ar gyfer yr holl fusnesau risg uchel <i>(PPN/001iii)</i> (Canlyniad 2017/18 -100% / Targed 2018/19 - 100%)	✓	Canlyniad 2018/19 - 100% Cafodd pob un o'r 198 o fusnesau risg uchel o ran Iechyd Anifeiliaid oedd yn agored i arolygiad eu harolygu yn ystod y flwyddyn.